**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**National Assembly for Wales**
Environment and Sustainability Committee

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

8 Mawrth 2016

Annwyl Carl,

**Ansawdd dŵr**

Parthed eich llythyr dyddiedig 11 Awst 2015, hoffem ddiolch ichi am eich ymateb, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol.

Rydym yn dymuno cynnig safbwynt ychwanegol ynghylch yr ymdrechion i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ('y Gyfarwyddeb').

Fel yr ydych yn cydnabod, mae gofynion y Gyfarwyddeb yn hynod o heriol ac uchelgeisiol, ac rydym yn derbyn bod y broses o sicrhau statws ecolegol da i gyrff dŵr yn un heriol.

Rydym o'r farn y dylai'r mater hwn fod yn un o'r meysydd blaenoriaeth yn rhaglen waith Llywodraeth nesaf Cymru. Mae rhanddeiliaid wedi cefnogi'r farn hon mewn gweithdai etifeddiaeth yr ydym wedi'u cynnal yn ddiweddar. Rydym wedi argymell cynnwys y maes polisi hwn yn rhaglen waith un o bwyllgorau'r dyfodol. Mae hyn oherwydd bod gan y broses o wella ansawdd dŵr y potensial i arwain at ystod eang o fuddion y tu hwnt i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

Credwn fod angen ystyriaeth bellach o'r proffil ariannu a gweithredu ar gyfer bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ymddengys inni fod cryn dipyn o weithredu a buddsoddi yn cael ei neilltuo tan y cylch terfynol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddAmgylch@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddAmgylch
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEnv@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEnv
0300 200 6565

Yn y cyfamser, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn yr ail gylch o gynlluniau rheoli ar gyfer y basn afon yn cael cefnogaeth ddigonol o ran y flaenoriaeth wleidyddol a roddir i'r gwaith hwn a'r adnoddau sydd ar gael i'w cefnogi.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Dr. Emyr Roberts, er mwyn cydnabod rôl bwysig Adnoddau Naturiol Cymru o ran cefnogi'r broses o weithredu'r camau y mae angen eu cymryd i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

Yn gywir,

**Alun Ffred Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**